egroeso

bwletin electronig gan **Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru**

RHIFYN 29

Ceiswyr cyffro yn creu mwy o swyddi

01745 589020
www.tpnw.org

TOURISM PARTNERSHIP North Wales

PARTNERIAETH TWRISTIAETH Gogledd Cymru

allan

tudalen nesaf

adventure

attractions

short breaks

gardens

golf

moviemap

walking

walled towns

giants

events

ambassadors

Ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by Welsh Assembly Government

Ceiswyr cyffro yn creu mwy o swyddi

Mae disgwyl i'r farchnad ffyniannus mewn gwyliau antur greu 1,000 o swyddi newydd yng Ngogledd Cymru dros y pum mlynedd nesaf.

Yn ôl Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru, mae'r rhanbarth mewn lle da i fanteisio ar boblogrwydd cynyddol gweithgareddau awyr agored.

Meddai'r Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol, Dewi Davies: "Mae gennym lawer o hygrededd fel cyrchfan ar gyfer gwyliau awyr agored, yn enwedig gweithgareddau fel mynydda, beicio mynydd, chwaraeon padlo neu gerdded.

"Mae yna gyfle i greu 1,000 o swyddi newydd yn y sector awyr agored dros y pum mlynedd nesaf oherwydd mae'r sector ar gynnydd yn y DU.

"Nid rhyw dân siafins o ddiwydiant yw hwn ond un sy'n gyfrannwr hanfodol i economi Gogledd Cymru," meddai.

Roedd Mr Davies yn siarad yn Fforwm Awyr Agored cyntaf Gogledd Cymru yn Llanrwst, ar gyfer y sectorau cerdded ac antur, sy'n cynnal 350 o fusnesau.

Nod y fforwm a drefnwyd gan y Bartneriaeth Twristiaeth oedd arddangos technoleg arloesol a helpu gweithredwyr i godi safonau er mwyn hybu eu busnesau yn unigol ac yn rhanbarthol.

Cafodd y rhai oedd yno hefyd gipolwg gynnar ar dechnoleg newydd a allai wneud mynyddoedd Eryri yn saffach i gerddwyr cyn bo hir, yn ogystal â'u helpu i ddysgu mwy am yr ardal.

Bydd defnyddwyr 'ffonau clyfar' yn gallu lawrlwytho pecyn cymhwyso ("app") sy'n disgrifio'r teithiau cerdded poblogaidd yn fanwl, ac yn cynnwys mapiau a gwybodaeth am lefydd o ddiddordeb yn yr ardal.

Bydd yr "app" yn cael ei lansio'n fuan iawn gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac ni fydd raid talu amdano.

Eglurodd John Ablitt, Cyfarwyddwr Cyfathrebu'r Awdurdod, y bydd yr "app" yn galluogi pobl i gael gafael ar amrywiaeth eang o wybodaeth am y Parc a'i atyniadau ac yn egluro'n glir wrth bobl sy'n bwriadu cerdded yn y mynyddoedd am y tro cyntaf, beth i'w ddisgwyl.

"Mae hanner miliwn o bobl yn cerdded ar yr Wyddfa bob blwyddyn ac rydym eisiau sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth gywir yn y ffordd fwyaf modern. Rydym wedi gweithio'n galed ar hwn oherwydd rydym yn credu mai dyma'r ffordd ymlaen," meddai.

Dywedodd Mr Ablitt ei fod yn credu y byddai marchnad ar gyfer llyfrau taith traddodiadol o hyd ond gallai gwasanaethau newydd manwl gywir fel yr "app" weld diwedd ar y rhai sy'n cynnwys gwybodaeth annelwig ac mewn rhai achosion, cwbl gamarweiniol.

Y siaradwr gwadd yn y fforwm agoriadol oedd y Sgwadron-Bennaeth Iain "Spike" Wright, o Sgwadron 22 RAF y Fali, a siaradodd am y criwiau hofrennydd sy'n achub pobl ar y mynyddoedd a'r môr, sy'n cynrychioli 99% o'u gwaith.

Ymysg y pynciau eraill a drafodwyd oedd pwysigrwydd cynyddol technoleg newydd fel gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yn hybu

John Ablitt, Cyfarwyddwr Cyfathrebiadau, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

busnesau, yr angen i ddatblygu staff medrus a llawn cymhelliant, cyngor ar yswiriant a ffyrdd y gallai Gogledd Cymru fanteisio ar y ffaith fod mwy o longau mordaith yn ymweld â'r ardal.

Un o'r prif siaradwyr oedd Karen Plumb, Cyfarwyddwr Masnachol gyda Trip Advisor, y wefan deithio cyfrwng cymdeithasol sydd wedi dod o dan y lach gan lawer o gwmnïau twristiaeth am ddangos adolygiadau anffafriol o'u gwasanaethau.

Yn ei hanerchiad, dan y teitl "Ffrind neu Elyn", dywedodd fod y mwyafrif helaeth o bobl bellach yn mynd ar-lein wrth gynllunio taith a bod tystiolaeth fod safleoedd adolygu fel Trip Advisor yn ddylanwadol dros ben.

Ac er gwaethaf ofnau a phryderon cwmnïau, 3.5 yw'r sgôr cyfartalog a welir ar Trip Advisor, allan o sgôr posib o 5, ychwanegodd.

Anogodd y cwmnïau i ymateb yn gadarnhaol ac yn broffesiynol i sylwadau'r defnyddwyr, gan droi'r sefyllfa o'u plaid.

"Mae'r dyfodol yn ddigidol – byddwch yn rhan ohono," ychwanegodd.

Peter Hewlett o Aberdaron oedd yn cynrychioli Cerdded Gogledd Cymru, sy'n ceisio denu mwy o gerddwyr i'r rhanbarth.

Mae gwaith eisoes ar y gweill ar Lwybr y Pererinion ar draws Gogledd Cymru a dywedodd Alun Baines o Gorwen wrth y gynulleidfa am gamau i sefydlu Llwybr Owain Glyndŵr rhwng Sycharth, ger Llansilin, a Glyndyfrdwy, ger Corwen.

Meddai Mr Hewlett: "Brand Gogledd Cymru yw'r peth pwysicaf, a dyna sydd angen i ni ei hyrwyddo."

Am fwy o wybodaeth ewch i: www.outdoornorthwalesforum.co.uk

AR Y DDE: *Karen Plumb, Cyfarwyddwr Masnachol, Trip Advisor*

CHWITH: *Yn y darlun o'r chwith mae Carole Startin, Swyddog Gweithredol Marchnata a Digwyddiadau PTGC, Paul Maung-Maung, Rheolwr Antur Gogledd Cymru, Dewi Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol, PTGC, Simon Logan, Cerdded Gogledd Cymru a Peter Hewlett, Rheolwr, Cerdded Gogledd Cymru.*

www.tpnw.org